# Gideon



# Cyflwyniad

Wythnos yma, byddwn yn parhau i astudio llyfr y Barnwyr. Un o'r barnwyr yw Gideon. Wythnos yma, byddwn yn edrych ar y rhan gyntaf o'i stori ac yn parhau wythnos nesaf. Mae'r stori am ei alwedigaeth i'w gael yn Barnwyr 6:11-40. Y prif bwyntiau yw:

- Mae Duw yn ein gweld yn wahanol i'r ffordd rydym yn gweld ein hunain.
- Dydi Duw byth yn gadael Ei bobl.
- Mae Duw yn ein galw i gyflawni'r tasgau mae E'n gosod i ni.
- Gyda Duw ar ein hochr, does dim angen i ni ofni.

## Cynllun y wers

Gofynnwch i'r plentyn os ydynt yn cofio enw'r barnwr oedd wedi helpu Barac. Eglurwch fod yr amser wedi do di gael barnwr newydd, a galwodd Duw ddyn o'r enw Gideon. Atgoffwch y plentyn beth mae barnwr yn ei wneud.

Siaradwch am yr ofn sydd gan Gideon i wneud y dasg mae Duw wedi ei rhoi iddo. Meddyliwch am rhai adegau rydych chi a'ch plentyn wedi profi ofn. Eglurwch fel mae Duw yn rhoi'r nerth rydym angen i gyflawni'r dasg mae'n gofyn i ni wneud. I esbonio, arllwyswch bentwr o dywod ar y llawr yn eich tŷ. Gofynnwch i'ch plentyn lanhau'r llawr gan ddefnyddio dim ond ei fysedd. Pan mae'r plentyn yn methu neu yn dechrau drysu, tynnwch yr hwfer allan a glanhewch y tywod i fyny gan ddefnyddio'r hwfer gyda'ch gilydd. Eglurwch mai wrth geisio clirio'r tywod ar ei ben ei hun roedd yn methu gwneud y dasg, yn union fel na fyddai Gideon yn medru gwneud beth oedd Duw yn gofyn iddo heb gymorth gan Dduw. Siaradwch am y ffordd bydd Duw yn ein cyfarparu i wneud y dasgau sydd angen eu gwneud yn union fel roeddych wedi darparu eich plentyn gyda'r hwfer (neu ysgubell a padell lwch). Dysgwch Barnwyr 6:12 (B.net) Pan welodd yr angel, dyma'r angel yn dweud wrtho, "Mae'r ARGLWYDD gyda ti, filwr dewr." Atgoffwch y plentyn i ddweud yr adnod pan mae nhw'n ofnus (gallwch fyrhau i ddim ond ail hanner yr adnod).

Siaradwch am fel mae Duw yn ein gweld mewn ffordd wahanol i fel rydym yn gweld ein hunain. Darllenwch 1 Samuel 16:7b. Eglurwch fod Duw yn gweld ein calonnau. Heb i'ch plentyn weld, newidiwch drosodd y bagiau mewn dau focs grawnfwyd. Byddai'n gweithio gorau pe bai un grawnfwyd a blas mwy i oedolion a'r llall a blas mwy i blant. Gallwch hefyd ddefnyddio bwydydd eraill sy'n cael eu cadw mewn bocsys fel bisgedi neu graceri. Pwyntiwch allan mai o'r tu allan byddwn yn meddwl bod y bocs yn llawn o granola, ond ar y tu mewn mae e.e. 'Fruit Loops'. Er efallai byddwn wedi synnu i ffeindio'r math anghywir o rawnfwyd yn y bocs, mae Duw gwastad yn gwybod beth sydd tu mewn bocsys a chalonnau bobl.

Trafodwch sut mae Duw byth yn gadael Ei bobl. Eglurwch fod 'gadael' yn meddwl 'gadael yn gyfan gwbl', ond dydi Duw byth yn ein gadael wrth ein hunain. Eglurwch fod, er nad ydym yn gweld Duw, mae Duw bob amser yma. Ewch i mewn i ystafell heb ffenestr. Gafaelwch yn llaw'r plentyn a throwch y golau i ffwrdd. Eglurwch mai er nad ydynt yn eich gweld yn y tywyllwch, maent dal i wybod eich bod yna. Atgoffwch nhw fod yr Iesu wedi addo, "Bydda i gyda chi bob amser." Mathew 28:20. Dathlwch na fyddwn ni byth yn unig os ydyn yn cael yr Iesu yn ein calon.

Gweddïwch a gofynnwch i'r Iesu eich helpu bob amser i wneud y tasgau mae E'n gofyn i ni ac i beidio bod yn ofnus.

© 2023 truewaykids.com



Addawodd Duw i Gideon byddai gydag ef.

Rhoddodd Duw arwyddion i Gideon i ddangos byddai Ef yn cadw Ei addewidion.

Ymddiriedodd Gideon yn Nuw. Dywedodd wrth y bobl i garu ac i ufuddhau i Dduw eto.



# Gideon



Anghofiodd y bobl am Dduw eto.

Bob blwyddyn daeth y gelyn i mewn i'w gwlad a dwyn eu bwyd a'u hanifeiliaid.

Roedd hyn yn gwneud y bobl yn drist iawn. Gweddïon nhw i Dduw am gymorth.



Roedd Gideon yn fachgen yn Israel. Roedd yn ffermwr oedd yn tyfu gwenith.

Cuddiodd Gideon mewn twll gyda'r gwenith yn y cae.

Roedd yn ofn y gelyn.

Doedd e ddim eisiau iddynt ddwyn y bwyd.





Siaradodd Duw gyda Gideon.

Fe alwodd Duw Gideon yn rhyfelwr nerthol.

Doedd e ddim yn teimlo fel rhyfelwr nerthol. Roedd yn ofnus iawn.

Fe oedd y person lleiaf yn ei deulu.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## Chwarae cuddio

Eglurwch sut oedd Gideon wedi cuddio o'r gelyn mewn twll yn y ddaear.

Cymerwch dro yn chwarae cuddio gyda'ch plentyn. Dewiswch rif i gyfri yn dibynnu ar allu'r plentyn.





## Arbrawf gwlyb neu sych

I ddeall prawf Gideon gyda'r gyda'r gwlân, rhowch ddarnau o bapur cegin ar wahanol arwynebedd a gweld beth sy'n digwydd.

Gofynnwch i'ch plentyn ddyfalu'n gyntaf os fydd y papur yn aros yn sych neu'n gwlychu.

## Chwarae blawd

Arllwyswch ychydig o flawd ar hambwrdd. Eglurwch ein bod yn cael blawd o wenith.

Anogwch eich plentyn i dynnu llun neu i ysgrifennu llythrennau a rhifau gyda'i fysedd yn y blawd.

Gallwch hefyd greu llythyren iddynt gopïo.

Am fwy o hwyl, gorffennwch yr amser chwarae trwy adael iddynt chwarae gyda chloddwyr tegan yn y blawd.



© 2023 truewaykids.com

# Edrychwch am y gwahaniaeth


6 peth i'w ffeindio






© 2023 truewaykids.com

© 2023 truewaykids.com



# Ffeindiwch Gideon a’r anifeiliaid



# Gêm Drysfa

Helpwch Gideon ffeindio'i ffordd yn ôl i'r beudy gyda'r gwenith.



© 2023 truewaykids.com

# Gwlyb neu sych

Tynnwch gylch o gwmpas y plant gwlyb.















© 2023 truewaykids.com

# Blanced Wlân Tegan


## Pethau rydych angen:




- 2 ddarn o ffelt A4
- Gwlân
- Nodwydd blastig neu nodwydd diogelwch
- Glud
- Siswrn
- Pen ffelt

https://youtu.be/HmJU-FHXdcI

## Beth i'w wneud:




Plygwch y ffelt a gwnewch doriadau bach o gwmpas y tu allan o'r ffelt bydd yn cael eu defnyddio i edafu'r gwlân.



Gan ddefnyddio nodwydd blastig ac ychydig o wlân, defnyddiwch bwyth blanced o gwmpas y darn ffelt.



Parhewch nes bod y border yn gyflawn. Clymwch ddiweddion y gwlân gyda'i gilydd.



Arluniwch lythyren gyntaf o enw degan y plentyn ar ddarn ffelt o liw gwahanol.



Torrwch allan y llythyren ac unrhyw addurniadau arall a gludwch ar y flanced.




Gadewch ychydig o amser i'r glud sychu cyn ei ddefnyddio.


© 2023 truewaykids.com

Lliwiwch y lluniau.

Torrwch y llinellau toredig a’r stribed gwlân.


Llithrwch y stribed trwy’r llinellau toredig.





https://youtu.be/rjle9k4SaHw


© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com




© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Be bold, Be strong

https://youtu.be/zRvCUz6KFB4

## Mighty Warrior

https://youtu.be/CCEtqL7HTZQ

## I Won't Be Afraid

https://youtu.be/YhAH2zU8UiU





# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am faddau pobl.

Gofynnwch Iddo eich helpu i beidio bod ofn ond i ymddiried Ynddo.

Gofynnwch i Dduw eich helpu i weld pwy ydych ynddo Ef.

# Wythnos Nesaf:

## Gideon a'i fyddin o 300

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com